**Tasg 2**

# Crwn a lliwgar ...?

## Crwn a lliwgar?

Rydych chi'n mynd i gynllunio caead manol ar gyfer eich ardal chi / ar gyfer Cymru ond rhaid i chi ddilyn y traddodiad Japaneaidd, sef:

Efallai mai llun fydd arno – llun stori o'r gorffennol efallai, llun rhyw ddigwyddiad pwysig neu lun rhywbeth sy'n bwysig i'r bobl ...

Fel arfer, mae'r cynlluniau'n cynrychioli hanes, diwylliant neu arferion y wlad – neu rywbeth mwy lleol, fel pont neu gastell lleol.

Beth yw'r prif ofynion ar gyfer y caead manol felly?

Er bod y caeadau manolau yn y darn yn rhai crwn, croeso i chi gynllunio rhai sgwâr os ydych chi eisiau, gan fod nifer o gaeadau manolau sgwâr i'w gweld ar hyd a lled Cymru.

1. Ar ddarn o bapur A4, cynlluniwch y caead manol. Cofiwch: mae angen caead lliwgar!

2. Ysgrifennwch ddarn yn egluro arwyddocâd y cynllun.

3. Dangoswch y cynlluniau i'ch gilydd ac eglurwch y cynlluniau i'ch gilydd.